

## Bwydydd Talybont

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd fwydydd yng nghapel Bethlehem dros y Diolchgarwch tuag at y Banc Bwyd lleol.

## Cymdeithas

Mr Huw P Hughes, Bethel oedd y gŵr gwadd yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun. Llywyddwyd gan Mr Brian Price.

## Sul y Cofio

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neiniolen am 9.15 o'r gloch, ddydd Sul, Tachwedd 13.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch yfory, dydd Llun, Hydref 31.

## Cwrs Ieuentid

Mae rhai o ieuentid Llanberis yn y Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala ers nos Wener. Byddant adref yn nes ymlaen heddiw. Diolch i Andrew Settatree a Morgan Williams am fynd yno efo nhw.

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**

**Dydd Sul, Tachwedd 6:** Gwasanaethir

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Hydref 30

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

#### Tachwedd 6

3.30 p.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)

#### Tachwedd 13

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn oedfa Gymun.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Tachwedd 6:** Cyfarfod Gweddi am 10.00 o'r gloch. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 6:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Tachwedd 6:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Pryderi Llwyd Jones, Cricieth.

### CARMEL

**Nos Wener, Tachwedd 4:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 6:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Hydref 31:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Hydref 30

10.00 a.m. - Parti Bytholwyrdd  
DIM YSGOL SUL  
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

#### Tachwedd 6

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

#### Tachwedd 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 703: Dydd Sul, 30 Hydref, 2016

## Dyddiau'r Marathon

Be fedrwch chi ei wneud mewn 75 awr? Faint yn union yw 75 awr? Tri diwrnod a thair awr. A be fedrwch chi ei wneud mewn tri diwrnod a thair awr? Un peth y medrwch ei wneud, fel y gwelwyd yng Nghadeirlan Caerwynt (Winchester) yn ddiweddar, yw darllen y Beibl cyfan ar goedd yn ddi-stop. Cofiwch chi, nid un person oedd yn gwneud hynny, ond tîm o 150 o bobl yn darllen am 20 munud ar y tro.

Gallwn ymateb i hynny mewn un o ddwy ffordd. Ar y naill law, gallwn weld y Beibl yn llyfr anferthol os oes angen pob munud a phob eiliad o dri diwrnod cyfan i'w ddarllen. Ar y llaw arall, a ninnau o bosibl wedi arfer meddwl fod angen blynyddoedd i fynd trwyddo, gallwn synnu o ddeall bod modd gwneud hynny mewn tridiau.

Dwi ddim yn awgrymu y dylem fynd ati i ddarllen Y Beibl o glawr i glawr yn ddi-stop – heb fwyta na chysgu na gwneud dim arall – am dri diwrnod cyfan. Mae'n beryg y gwnâi marathon o'r fath fwy o niwed na lles i ni. Ond mae darllenwyr Caerwynt yn dangos fod darllen Y Beibl gryn dipyn haws nag a feddylia llawer o bobl. Mae cyfieithiadau newydd a modern, fel beibl.net yn Gymraeg, wedi gwneud y Beibl yn llyfr haws i'w ddeall hefyd. Bedwar can mlynedd yn ôl, fe gyfieithodd William Morgan Y Beibl i'r Gymraeg er mwyn i'r Cymry fedru ei ddarllen a'i ddeall yn eu hiaith eu hunain. Cyflawni'r un nod a wna beibl.net heddiw.

Ond wrth ddarllen Y Beibl, nid yw deall y geiriau yn gyfystyr â deall y neges. Gallwn ddeall pob gair heb ddeall yr un gair! Ond does dim rhaid i'r un ohonon fod heb gymorth i ddeall Y Beibl heddiw gan fod toreh o lyfrau ac adnoddau ar gael i'n harwain trwy'r llyfr hwn a'i neges. Un mudiad sy'n amlwg yn hyrwyddo'r Beibl yw Cymdeithas Y Beibl, sy'n cyhoeddi ystod eang o adnoddau i'n helpu i'w ddarllen a'i werthfawrogi. Mae hefyd yn trefnu Sul y Beibl yn flynyddol er mwyn pwysleisio gwerth y llyfr.

Yn swyddogol, y Sul diwethaf oedd Sul y Beibl, er bod rhyddid i eglwysi ei gynnal ar unrhyw Sul hwylus arall. Yn gam neu gymwys, wnes i erioed roi llawer o sylw i'r Sul hwn, gan feddwl, mae'n debyg, y dylai pob Sul fod yn 'Sul y Beibl'. Nid llyfr ar gyfer un Sul neu un diwrnod ydyw, ond llyfr ar gyfer pob Sul a phob dydd.

Ond ai dyna ydyw? Onid y gwir yw iddo fod yn llyfr dieithr i lawer o bobl, o fewn ein capeli a'n heglwysi hyd yn oed? Un rheswm posibl dros hynny yw'r syniad poblogaidd fod angen blynyddoedd i'w ddarllen. Rheswm mwy tebygol yw bod pobl wedi rhoi'r gorau i'w ddarllen am nad ydynt yn ei ddeall. Mae cyfieithiadau newydd, yn golygu bod darllen Y Beibl yn haws nag erioed. A chyda'r holl adnoddau a llyfrau i'n helpu, fe ddylai hefyd fod yn haws nid yn unig i ddeall y geiriau ond i ddeall yr ystyr hefyd. Rhowch gynnig arni, gam wrth gam.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Mor werthfawr yw dy gariad,  
O Dduw! Llochesa pobl dan  
gysgod dy adenydd. Fe'u  
digonir â llawnder dy dŷ, a diodi hwy o  
afon dy gysuron: oherwydd gyda thi y  
mae ffynnon bywyd' (Salm 36:7-9).



BEIBL BYW

## Heddiw

Bydd oedfa'r bore yn Capel Coch yng  
ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd, a  
chynhelir Cyfarfod Gweddi am 5.00 o'r  
gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan y Parchg Y Parchg Dafydd  
Coetmor Williams, Llanllechid.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch. Gwasanaethir mewn  
Oedfa Fedydd am 5.00 o'r gloch gan y  
Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am  
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00  
o'r gloch gan y Parchg W H Pritchard.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod  
yn dda eu hiechyd.

Bu Miss Dilys Williams, Plas Ogwen,  
Bethesda yn Ysbyty Gwynedd yn ystod  
yr wythnos.

## Cydymdeimlo

Yn Ysbyty Gwynedd echnos bu farw Mr  
Raymond Tugwell, 9 Ffordd Llanllechid,  
Rachub, a chydymdeimlwn yn ddwys â'i  
briod Ann a'r teulu yn eu colled fawr.

## Cinio Cawl

Ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarweh yn  
Capel Coch ddydd Sul diwethaf roedd  
Cinio Cawl wedi ei baratoi er mwyn codi  
arian at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.  
Fe arhosodd dros 60 i'r cinio, a chafwyd  
cyfle i sgwrsio a mwynhau'r gwmniaeth  
dros ginio.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu  
mewn unrhyw ffordd i drefnu'r cyfan,  
trwy godi'r byrddau a'u hulio, paratoi'r  
bwyd, gweini, golchi llestri a chlirio.

Doedden ni ddim wedi nodi pris y cinio,  
ond trwy'r rhoddion hael derbyniwyd  
£670 at Ward Alaw. Diolch yn fawr  
iawn i bawb am eich cefnogaeth.

Mae modd gweld lluniau o'r Cinio ar  
dudalen *Facebook* Capel Coch neu ar  
wefan yr Ofalaeth ([www.gronyn.org](http://www.gronyn.org)).

Diolch hefyd i gwmmi E W Pritchard,  
Llanberis, a dalodd am y cig a'r llyisiau ar

gyfer y lobsnows.

Byddwn yn trefnu i drosglwyddo'r arian i  
Ward Alaw o fewn y dyddiau nesaf.

## Bocsys Nadolig

Ers dros 20 mlynedd, cafwyd cefnogaeth  
ardderchog i apêl flynyddol Ymgyrch  
Plentyn y Nadolig. Mi fentraf ddweud  
mai yma yn Nyffryn Peris y bathwyd yr  
enw Cymraeg 'answyddogol' hwn am  
'Operation Christmas Child'. Ers hynny,  
anfonwyd miloedd o focsys esgidiau  
llawn o anrhegion o'r ardal hon i blant  
mewn sawl gwlad yn Ewrop a thu hwnt.  
Yn y blynyddoedd cynnar, byddem yn  
casglu cannoedd o focsys o'r ysgolion a'r  
capeli lleol i'w danfon i warws yr elusen  
yn Wrecsam. Yn fwy diweddar, mae lori  
neu fan yr elusen wedi casglu'r bocsys  
o'r ysgolion a ninnau wedi danfon y  
bocsys a roddwyd gan aelodau'r capeli i  
Wrecsam, neu i Landrillo-yn-Rhos.

Sefydlwyd Ymgyrch Plentyn y Nadolig  
yn 1990 gan ddau gyfaill o Wrecsam a  
feddyliodd am anfon anrhegion Nadolig  
mewn bocs esgidiau i blant yn Romania.  
Bu un o'r ddau, Dave Cook, yn arwain y  
gwaith am flynyddoedd cyn i'r elusen  
ddod dan nawdd elusen fwy Pwrs y  
Samariaid (Samaritan's Purse) tua 15  
mlynedd yn ôl.

Wedi hynny, yn 2006, sefydlodd Dave  
Cook elusen arall, 'Teams 4 U', er mwyn  
rhoi cyfle i bobl fod yn rhan o wahanol  
brosiectau sy'n gwasanaethu plant mewn  
gwledydd fel Romania, Uganda, Sierra  
Leone, Cambodia a'r Iwcrain. Ers tair  
neu bedair blynedd, mae Teams 4 U wedi  
mabwysiadu syniad gwreiddiol Dave  
Cook o anfon anrhegion mewn bocsys  
esgidiau i blant yn y gwledydd hyn. Y  
llynedd, penderfynodd y bobl fu'n trefnu  
casgliadau Ymgyrch Plentyn y Nadolig  
yng Ngogledd-orllewin Cymru ers deng  
mlynedd a mwy y byddent yn cefnogi  
ymdrech Teams 4 U. Yn enw Teams 4

U, felly, yr anfonwyd bocsys yr ysgolion  
lleol y llynedd, ond anfonwyd y bocsys a  
gawsom ni o'r capeli trwy Ymgyrch  
Plentyn y Nadolig.

Eleni, er mwyn hwyluso pethau, byddwn  
yn gweithio trwy Teams 4 U, a chaiff y  
bocsys eu danfon i ganolfan gasglu yn  
Mae Colwyn. Os ydych am wneud bocs,  
bydd angen iddo ddod i law **erbyn nos  
Sul, Tachwedd 20 fan bellaf**, er mwyn i  
mi allu ei ddanfoni i Fae Colwyn mewn  
da bryd.

Mae taflenni ar gael sy'n cyflwyno  
gwaith Teams 4 U ac yn egluro beth i'w  
roi yn y bocs (a beth na ddylid ei roi).  
Gofynnir am £2.50 gyda phob bocs tuag  
at gost cludiant. (Gellir gwneud sicciau  
yn daladwy i 'Teams 4 U'.) Cewch ragor  
o fanylion am 'Teams 4 U' ar wefan yr  
elusen, [www.teams4u.com](http://www.teams4u.com). I gael taflen,  
neu am ragor o wybodaeth am y casgliad  
yn lleol, ffoniwch y Gweinidog, 01286  
872390.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Evan  
Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis yn y  
brofedigaeth o golli ei frawd, Ieuan, yn Y  
Fron yr wythnos ddiwethaf.

## Oedfa Fedydd

Yn ystod yr oedfa yng Nghapel Carmel  
bnawn Sul diwethaf bedyddiwyd Catrin  
Haf Jones, merch Danielle a Dylan Jones,  
12 Glanogwen, Bethesda a Jac Jones,  
mab Karen a Peter Jones, 20 Hill Street,  
Bethesda. Dymunwn fendith Duw i'r  
dau deulu, ac edrychwn ymlaen at gael  
croesawu'r plant i weithgareddau'r capel  
a'r Ysgol Sul.

## Ffrwythau

Diolch am y ffrwythau a gafwyd yn yr  
Oedfa Ddiolchgarweh yn Capel Coch, a  
diolch i bawb a fu'n helpu i'w dosbarthu.